Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



MIS HANES OGWR

Croeso i'r trydydd Mis Hanes Ogwr blynyddol! Wedi'i drefnu mewn partneriaeth â Rhwydwaith Treftadaeth Ogwr, rydym yn edrych ymlaen at gynnal mis o sgyrsiau hanes, teithiau cerdded, ffilmiau, arddangosiadau a digwyddiadau trwy gydol mis Medi ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau hyn am ddim, diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru, ond nodwch y bydd angen i chi archebu eich tocynnau ymlaen llaw ar gyfer llawer o'r digwyddiadau.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bydd nifer o Ddiwrnodau Agored am ddim yn cael eu cynnal ledled y sir trwy gydol mis Medi, ar y cyd â gŵyl Drysau Agored CADW.

Mae rhagor o wybodaeth am yr holl ddigwyddiadau, gan gynnwys manylion archebu, ar gael ar ein gwefan: awenboxoffice.com

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am ddigwyddiad, gallwch chi naill ai gysylltu â lleoliad y digwyddiad penodol, neu e-bostio: history@awen-wales.com

Mae tocynnau a gweithgareddau yn amodol ar argaeledd, a gall sgyrsiau fod yn destun newid. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu nodi ar y cyfryngau cymdeithasol a bydd deiliaid tocynnau yn cael gwybod amdanynt yn uniongyrchol.

SGANIWCH I ARCHEBU

DYDDIAD	AMSER	DIGWYDDIAD	ENW	LLEOLIAD	TOCYNNAU	MANYLION
DYDD MAWRTH 1 MEDI	**11am – 4pm**	**Arddangosfa 'Datgloi Ogwr – Dathlu Plentyndod'**	Treftadaeth Awen	Llyfrgell Pencoed	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Darganfyddwch a dathlwch straeon lleol am blentyndod, a rhannwch rai o'ch atgofion eich hun hefyd! Mae hon yn arddangosfa hwyliog a rhyngweithiol o hanes lleol sy'n hygyrch i bawb a phob oedran.
DYDD MERCHER 2 MEDI	**1pm**	**Sinema: 'Napoleon'**	Treftadaeth Awen	Y Bocs Oren, Neuadd y Dref Maesteg	Am ddim, mae'n hanfodol archebu lle	Mae'r ffilm epig hon gan y cyfarwyddwr Ridley Scott yn mynd ar drywydd cynnydd a chwymp yr Ymerawdwr Ffrengig eiconig Napoleon Bonaparte, a chwaraeir gan yr enillydd Oscar Joaquin Phoenix.
DYDD MERCHER 2 MEDI	**7.30pm**	**'Legenda: Y merched go iawn y tu ôl i'r mythau a luniodd Ewrop'**	Dr Janina Ramirez	Neuadd y Dref Maesteg	£5 y pen, rhaid archebu lle	Yn ymuno â ni yn Neuadd y Dref Maesteg fydd yr hanesydd, y ddarlledwraig a'r awdures boblogaidd Dr Janina Ramirez. Bydd yn rhannu'r straeon go iawn y tu ôl i fenywod hanesyddol fel Siân d'Arc a'r Foneddiges Godiva, ac yn archwilio sut roedd bywydau menywod canoloesol yn cael eu hecsbloetio a'u mytholegeiddio.
DYDD IAU 3 MEDI	**7.30pm**	**'Hanes byr o gerddoriaeth'**	Green Matthews	Neuadd y Dref Maesteg	£5 y pen, rhaid archebu lle	Mae 'Hanes byr o gerddoriaeth' yn crynhoi 600 mlynedd o hanes cerddoriaeth mewn 90 munud! O'r Oesoedd Canol i'r 20fed ganrif, mae'r sioe hwyliog hon yn cynnwys taith wib o hanes cerddoriaeth y byd gorllewinol, gan gynnwys alawon, offerynnau a chaneuon sydd wedi hen fynd yn angof.
DYDD GWENER 4 MEDI	**11am**	**'Cerddoriaeth mewn celf'**	Sophie Matthews	Llyfrgell y Pîl	Am ddim – Rhaid archebu lle	Bydd y sgwrs hon am hanes cerddoriaeth yn cynnwys delweddau o offerynnau mewn celf yn ogystal ag offerynnau hanesyddol go iawn a fydd yn cael eu chwarae gan ein siaradwr, Sophie Matthews.
DYDD SADWRN 5 MEDI	**10am - 11.30am**	**Gweithdy hanes i blant**	Tîm Gweithdy Rhyfel Byd Cymru	Llyfrgell Maesteg	Am ddim – Rhaid archebu lle	'Pobl Oes Fictoria'. Wedi'i anelu at blant rhwng 5 a 10 oed.
DYDD SADWRN 5 MEDI	**1pm – 2.30pm**	**Gweithdy hanes i blant**	Tîm Gweithdy Rhyfel Byd Cymru	Llyfrgell Abercynffig	Am ddim – Rhaid archebu lle	'Pobl Oes Fictoria'. Wedi'i anelu at blant rhwng 5 a 10 oed.
DYDD SADWRN 5 MEDI	**2pm**	**'Breuddwyd haearn': Taith dywys o amgylch Gwaith Haearn Cefn**	Y Cefn Gwyrdd	Parc Bedford, Cefn Cribwr (anfonir y cyfarwyddiadau ar gyfer cyfarfod gyda'r tocynnau)	Am ddim – Rhaid archebu lle	Ym 1770 roedd gan John Bedford freuddwyd o greu'r gwaith haearn mwyaf yn Ne Cymru. Adeiladodd waith haearn Cefn Cribwr a heddiw mae'n un o'r enghreifftiau gorau o waith haearn bach sydd wedi'i gadw yn y wlad. Ymunwch â'r Cefn Gwyrdd ar gyfer y daith arbennig hon o amgylch y safle.

IOLO MORGANWG 200

Mae eleni yn nodi 200 mlynedd ers marwolaeth Edward Williams, sy'n fwy adnabyddus fel Iolo Morganwg, ffigwr allweddol yn hanes diwylliannol Cymru.

Ymunwch â ni trwy gydol mis Medi i archwilio ei fywyd, ei etifeddiaeth a'i ddylanwad:

- **Dydd Gwener 11 Medi, 10am:** ***Taith Gerdded Hanes Morgannwg: Cefn Cribwr***
  Taith dywys gyda Graham Loveluck-Edwards, gan fynd heibio i hen siop Iolo.
- **Dydd Mercher 16 Medi, 7pm:** ***Iolo: Cerddoriaeth, Cefn a Chymru***
  Digwyddiad cerddorol Cymraeg yn nhafarn y Tair Pedol, Cefn Cribwr.
- **Dydd Sadwrn 19 Medi, 10am–4pm:** ***Iolo Morganwg: Ddoe a Heddiw***
  Arddangosfa gan Gymdeithas Hanes Bro Ogwr, Neuadd y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr.
- **Dydd Sadwrn 19 Medi, 10am:** ***Taith Gerdded Hanes Morgannwg: Cynffig a'r Sgêr*** Archwiliwch y tirweddau a ysbrydolodd straeon Iolo.
- **Dydd Mercher 23 Medi, 11am:** ***Iolo Morganwg: 'Y Ffugiwr Gonest?'***
  Phil Cope sy'n trafod ei lyfr newydd.
- **Dydd Mawrth 29 Medi, 6.45pm:** ***Iolo Morganwg: Bywyd ar ôl marwolaeth***
  Gareth Thomas sy'n archwilio enw newidiol Iolo, Llyfrgell Pencoed.



PEN-Y-BONT AR OGWR AGORED: DYDD SADWRN 19 MEDI

Cyfle unigryw i archwilio **safleoedd hanesyddol a mannau addoli** ledled Pen-y-bont ar Ogwr, i gyd **yn rhad ac am ddim.**

- Tŷ Sant Ioan, Newcastle Hill: ar agor 11am-3pm
- Eglwys y Santes Fair, Coety, CF35 6BG
- Eglwys Dewi Sant, Trelales, CF32 0LB*
- Eglwys Teilo Sant, Merthyr Mawr, CF32 0LS*
- Eglwys Sant Crallo, Llangrallo, CF35 5HL*
- Eglwys Sant Illtud, y Castellnewydd, CF31 4HA*
- Eglwys y Santes Fair, Nolton, CF31 3NH*
- Eglwys y Santes Fair, Coety, CF35 6BG*
- Eglwys yr Holl Saint, Pen-y-fai, CF31 4LU*
- Eglwys y Bedyddwyr Hope, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1EA
- Eglwys Bywyd, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1HA
- Eglwys Unedig Pen-y-bont ar Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4JA
- Eglwys Freeschool Court, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3AG
- Eglwys Gatholig y Santes Fair, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3HS
- Arddangosfa placiau glas Pen-y-bont ar Ogwr, Tŷ Carnegie, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1EF, 10am – 4pm.
- Arddangosfa Gymraeg, Neuadd y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr, Cf31 1TH

Cyfle perffaith i brofi sawl lleoliad treftadaeth mewn un diwrnod.

* *Darperir lluniaeth am ddim.*

DYDDIAD	AMSER	DIGWYDDIAD	ENW	LLEOLIAD	TOCYNNAU	MANYLION
DYDD SADWRN 5 MEDI	**2.30pm**	**'Gorwelion Canoloesol – pam mae'r Oesoedd Canol yn bwysig'**	Ian Mortimer	YBO, Neuadd y Dref Maesteg	Am ddim – Rhaid archebu lle	Bydd yr hanesydd ac awdur llwyddiannus 'The Time Traveller's Guide to Medieval England', Ian Mortimer, yn cyflwyno sgwrs ddarluniadol yn seiliedig ar y themâu yn ei lyfr 'Medieval Horizons'. Darganfyddwch sut y trawsnewidiwyd bywydau a dealltwriaeth pobl ganoloesol o'r byd yn llwyr rhwng 1000 a 1600.
DYDD MAWRTH 8 MEDI	**2pm**	**'Menywod yn yr Archifau: Archwilio Hanes Menywod yng Nghasgliadau Archifau Morgannwg'**	Rhian Diggins	Llyfrgell y Pîl	Mynediad am ddim, rhaid archebu lle	Ymunwch â Rhian Diggins, Uwch Archifydd yn Archifau Morgannwg, ar gyfer y sgwrs ddiddorol hon am gasgliadau Archifau Morgannwg sy'n canolbwyntio ar Hanes Menywod.
DYDD MAWRTH 8 MEDI	**7pm**	***'Cofio Ann' (sgwrs yn Gymraeg)***	Siân Meinir	Tafarn Gymunedol y Tair Pedol, Cefn Cribwr	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Cyfle i werthfawrogi pwysigrwydd yr emynyddes o Gymru Ann Griffiths a'i gwaith wrth i ni ddathlu 250 mlynedd ers ei geni.
DYDD MERCHER 9 MEDI	**1pm**	**Sinema: 'Patagonia'**	Treftadaeth Awen	Y Bocs Oren, Neuadd y Dref Maesteg	Am ddim, mae'n hanfodol archebu lle	Mae'r ffilm hon, sydd wedi'i gyfarwyddo gan Marc Evans ac y mae'r actor Matthew Rhys yn serennu ynddi, yn archwilio hunaniaeth mewn dwy daith gyfochrog. Mae cwpl o Gymru yn teithio trwy Dde America yn chwilio am eu treftadaeth, tra bod menyw oedrannus o'r Ariannin yn ymweld â Chymru i olrhain ei gwreiddiau.
DYDD MERCHER 9 MEDI	**7.30pm**	**'Breninesau'r gorffennol ac arwresau Cymreig'**	Kate Williams	Neuadd y Dref Maesteg	£5 y pen, rhaid archebu lle	Yn y sgwrs hon gan yr hanesydd, yr awdures a'r ddarlledwraig adnabyddus, yr Athro Kate Williams, bydd yn trafod breninesau hanesyddol a'r heriau a wynebwyd gan fenywod a oedd mewn grym. Bydd hefyd yn tynnu sylw at rai o'n harwresau hanesyddol Cymreig.
DYDD GWENER 11 MEDI	**10am**	**Taith Gerdded Hanes Morgannwg - Cefn Cribwr**	Graham Loveluck-Edwards	Cefn Cribwr (lleoliad y cyfarfod i'w gadarnhau wrth archebu)	Am ddim, mae'n hanfodol archebu lle	Ar y daith gerdded 4.6 milltir hon, byddwn yn gweld cymaint o ogoniant diflanedig, gan gynnwys pentref canoloesol coll, castell â stori arswydus a gwaith haearn gwag. Hefyd, ddeucanmlynedd ers marwolaeth Iolo Morganwg, byddwn yn mynd heibio i'w hen siop.

DYDDIAD	AMSER	DIGWYDDIAD	ENW	LLEOLIAD	TOCYNNAU	MANYLION
DYDD SADWRN 12 MEDI	**10am-2.30pm**	**Arddangosfa 'Dathlu Plentyndod' Ogwr Agored**	Treftadaeth Awen	Neuadd Goffa Nant-y-moel	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Darganfyddwch a dathlwch straeon lleol am blentyndod, a rhannwch rai o'ch atgofion eich hun hefyd! Mae hon yn arddangosfa hwyliog a rhyngweithiol o hanes lleol sy'n hygyrch i bawb a phob oedran.
DYDD SADWRN 12 MEDI	**11am**	**'Rhufeiniaid yng Nghymru'**	John Richards	Neuadd Goffa Nant-y-moel	Am ddim, rhaid archebu lle	Bydd John Richards yn trafod y cyfnod pan gafodd Cymru ei meddiannu gan y Rhufeiniaid, rhwng 48 OC tan tua 383 OC, a'r dylanwad a'r effaith Rhufeinig ar ein hardaloedd lleol.
DYDD SADWRN 12 MEDI	**9am – 1pm**	**Bore agored**	Cymdeithas Hanes Lleol Cwm Ogwr	Hwb Treftadaeth Cwm Ogwr, Nant-y-moel	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Ewch i'r Hwb Treftadaeth i gael cipolwg diddorol ar gasgliad hanes lleol Cymdeithas Hanes Lleol Cwm Ogwr, a darganfod mwy am hanes Cwm Ogwr.
DYDD SADWRN 12 MEDI	**10.30am – 12pm**	**Gweithdai hanes i blant**	Tîm Gweithdy Rhyfel Byd Cymru	Llyfrgell Pencoed	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	'Teganau trwy'r oesoedd'. Wedi'i anelu at blant rhwng 5 a 10 oed.
DYDD SADWRN 12 MEDI	**2.30pm – 4pm**	**Gweithdai hanes i blant**	Tîm Gweithdy Rhyfel Byd Cymru	Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	'Teganau trwy'r oesoedd'. Wedi'i anelu at blant rhwng 5 a 10 oed.
DYDD SADWRN 12 MEDI	**9am**	**Taith gerdded hanes: Llangynwyd i Fynydd Margam**	Cymdeithas Hanes Cwm Llynfi	Bill Howells / Neil Perry (man cyfarfod i'w gadarnhau wrth archebu)	Am ddim, rhaid archebu lle	Ar y daith gerdded fynyddig 6 milltir hon o bentref Llangynwyd i gopa mynydd Margam, byddwn yn ymweld â henebion, olion tomen gladdu o'r Oes Efydd, a chloddwaith o'r Oes Haearn. Bydd angen gwisgo esgidiau a dillad priodol ar gyfer y daith gerdded anodd hon.
DYDD SUL 13 MEDI	**11am-3pm**	**Diwrnod Agored Sant Ioan**	Ymddiriedolaeth Tŷ Sant Ioan	Tŷ Sant Ioan, Pen-y-bont ar Ogwr	Am ddim, does dim rhaid archebu lle (croesewir rhoddion)	Mae Tŷ Sant Ioan yn adeilad rhestredig Gradd II* y credir mai ef yw'r tŷ hynaf y mae modd byw ynddo ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae gan y tŷ, sy'n cael ei adnabod fel tŷ ag aelwyd yn y cyntedd, hanes diddorol, arddangosiadau gwych a gwirfoddolwyr hyfryd a all roi'r holl wybodaeth amdano.
MONDAY 14 MEDI	**7.30pm**	**Iolo Morganwg a Gwerin Morgannwg**	Allan James / Cymdeithas Hanes Bro Ogwr	Tafarn Gymunedol y Tair Pedol, Cefn Cribwr	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Bydd Allan James yn rhoi'r sgwrs Gymraeg arbennig hon ar Iolo Morganwg a Gwerin Morgannwg yn lleoliad hyfryd Tafarn Gymunedol y Tair Pedol.
DYDD MAWRTH 15 MEDI	**2pm**	**'Cwt 9: y Ddihangfa Fawr Gymreig'**	Chris Durnall a Tim Rhys	Y Bocs Oren, Neuadd y Dref Maesteg	Am ddim, rhaid archebu lle	Bydd Chris Durnall a Tim Rhys yn siarad am Gwt 9 ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lleoliad yr ymgais fwyaf gan Garcharorion Rhyfel yr Almaen ym Mhrydain i ddianc yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Byddant hefyd yn trafod sut y gwnaeth eu hymchwil ysbrydoli eu drama newydd, 'Hut 9'.
DYDD MAWRTH 15 MEDI	**7pm**	**'Gweithrediaeth Gweithrediadau Arbennig yr Ail Ryfel Byd'**	Rob Taylor	YMCA Porthcawl, John Street	Tâl mynediad £1	Bydd Rob Taylor yn trafod y Weithrediaeth Gweithrediadau Arbennig, sefydliad cyfrinachol Prydeinig o'r Ail Ryfel Byd a fu'n ysbïo, yn difrodi ac yn rhagchwilio yn Ewrop dan feddiannaeth yr Almaen ac a gefnogodd fudiadau gwrthsafiad lleol.

GWEITHDAI HANES I BLANT

Mae'r sesiynau hyn, a gyflwynir gan ***Gweithdy Rhyfel Byd Cymru***, wedi'u cynllunio ar gyfer plant 5–10 oed:

- **Dydd Gwener 5 Medi:** ***Pobl Oes Fictoria***
  Maesteg (10–11.30am) ac Abercynffig (1–2.30pm)
- **Dydd Sadwrn 12 Medi:** ***Teganau trwy'r oesoedd***
  Pencoed (10.30am–12pm) a Phen-y-bont ar Ogw (2.30–4pm)
- **Dydd Sadwrn 19 Medi:** ***Pobl Oes Fictoria***
  Porthcawl (10–11.30am) a'r Pîl (1–2.30pm)

OGWR AGORED: ARDDANGOSFA 'DATHLU PLENTYNDOD'

Arddangosfa deithiol ryngweithiol am ddim sy'n archwilio **straeon lleol am blentyndod, gemau a theganau.**

- 12–13 August: Neuadd y Dref Maesteg
- 14–15 Awst: Neuadd y Gweithwyr Blaengarw
- 22–23 Awst: Parc Gwledig Bryngarw
- 1 Medi: Llyfrgell Pencoed
- 12 Medi: Canolfan Gymunedol Nant-y-moel
- 17–18 Medi: Llyfrgell y Pîl
- 21 Medi: Canolfan Bywyd Betws

DYDDIAD	AMSER	DIGWYDDIAD	ENW	LLEOLIAD	TOCYNNAU	MANYLION
DYDD MERCHER 16 MEDI	**2pm**	**'Felly dyna sut oedd pobl yn ysgrifennu 2000 o flynyddoedd yn ôl!'**	Richard Cleaves	Llyfrgell Porthcawl	Am ddim, rhaid archebu lle	Yn y sgwrs Gymraeg hon, bydd Richard Cleaves yn cyflwyno llechi ysgrifennu Bloomberg, Vindolanda ac Uley. Mae'r llechi hyn yn agor ffenestr i fyd y Celtiaid a'r Rhufeiniaid ym Mhrydain 2000 o flynyddoedd yn ôl. Mae'r sgwrs hon yn gysylltiedig â llyfr Richard a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y pwnc diddorol hwn.
DYDD MERCHER 16 MEDI	**7pm**	**Iolo... Cerddoriaeth, Cefn a Chymru**	Clwb Alawon, Bethan Nia a'r Cefn Gwyrdd	Y Tair Pedol - Cefn Cribwr	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Bydd y noson Gymraeg arbennig hon yn nhafarn y Tair Pedol yn ddathliad o Iolo Morganwg, treftadaeth a cherddoriaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, gyda cherddoriaeth delyn wych gan Bethan Nia.
DYDD IAU 17 MEDI	**11am-4pm**	**Arddangosfa 'Placiau Glas Pen-y-bont ar Ogwr'**	Cymdeithas Hanes Lleol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cylch	Tŷ Carnegie, Pen-y-bont ar Ogwr	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Mae'r arddangosfa hon sydd wedi'i churadu'n arbennig yn taflu goleuni ar gymeriadau hanesyddol Pen-y-bont ar Ogwr, a sut y gwnaethant ennill y gydnabyddiaeth i gael plac glas wedi'i greu ar eu cyfer.
DYDD IAU 17 MEDI	**11-4pm**	**Arddangosfa 'Ogwr Agored – Dathlu Plentyndod'**	Treftadaeth Awen	Llyfrgell y Pîl	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Darganfyddwch a dathlwch straeon lleol am blentyndod, a rhannwch rai o'ch atgofion eich hun hefyd! Mae hon yn arddangosfa hwyliog a rhyngweithiol o hanes lleol sy'n hygyrch i bawb a phob oedran.
DYDD IAU 17 MEDI	**5.30pm**	**'Norwyaid yng Nghymru'**	Dr Thomas Husøy	Llyfrgell Porthcawl	Am ddim, rhaid archebu lle	Bydd Dr Thomas Husøy yn trafod pam y daeth Norwyaid i Gymru yn y 1800au, gan adrodd hanes Norwyaid a sefydliadau Norwyaidd yng Nghymru o 1865 hyd heddiw a dangos hanes morwrol cyffredin Norwy a Chymru yn ogystal â dylanwad parhaol Norwy yng Nghymru heddiw.
DYDD GWENER 18 MEDI	**11am-4pm**	**Arddangosfa 'Placiau Glas Pen-y-bont ar Ogwr'**	Cymdeithas Hanes Lleol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cylch	Tŷ Carnegie, Pen-y-bont ar Ogwr	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Mae'r arddangosfa hon sydd wedi'i churadu'n arbennig yn taflu goleuni ar gymeriadau hanesyddol Pen-y-bont ar Ogwr, a sut y gwnaethant ennill y gydnabyddiaeth i gael plac glas wedi'i greu ar eu cyfer.
DYDD GWENER 18 MEDI	**11-4pm**	**Arddangosfa 'Ogwr Agored – Dathlu Plentyndod'**	Treftadaeth Awen	Llyfrgell y Pîl	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Darganfyddwch a dathlwch straeon lleol am blentyndod, a rhannwch rai o'ch atgofion eich hun hefyd! Mae hon yn arddangosfa hwyliog a rhyngweithiol o hanes lleol sy'n hygyrch i bawb a phob oedran.
DYDD SADWRN 19 MEDI	**10am – 11.30am**	**Gweithdai hanes i blant**	Tîm Gweithdy Rhyfel Byd Cymru	Llyfrgell Porthcawl	Am ddim, rhaid archebu lle	'Pobl Oes Fictoria'. Wedi'i anelu at blant rhwng 5 a 10 oed.

DYDDIAD	AMSER	DIGWYDDIAD	ENW	LLEOLIAD	TOCYNNAU	MANYLION
DYDD SADWRN 19 MEDI	**1pm – 2.30pm**	**Gweithdai hanes i blant**	Tîm Gweithdy Rhyfel Byd Cymru	Llyfrgell y Pîl	Am ddim, rhaid archebu lle	'Pobl Oes Fictoria'. Wedi'i anelu at blant rhwng 5 a 10 oed.
DYDD SADWRN 19 MEDI	**11am – 3pm**	**Tŷ Sant Ioan - Diwrnod Pen-y-bont ar Ogwr Agored**	Ymddiriedolaeth Tŷ Sant Ioan	Tŷ Sant Ioan, Newcastle Hill, Pen-y-bont ar Ogwr	Am ddim, does dim rhaid archebu lle (croesewir rhoddion)	Mae Tŷ Sant Ioan yn adeilad rhestredig Gradd II* y credir mai ef yw'r tŷ hynaf y mae modd byw ynddo ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae gan y tŷ, sy'n cael ei adnabod fel tŷ aelwyd, hanes diddorol, arddangosiadau gwych a gwirfoddolwyr hyfryd a all roi'r holl wybodaeth amdano.
DYDD SADWRN 19 MEDI	**10am – 4pm**	**Dathliad Iolo Morganwg 200 - Iolo Morganwg ddoe a heddiw ym Mro Ogwr**	Cymdeithas Hanes Bro Ogwr	Neuadd y Tabernacl, Elder Lane, Pen-y-bont ar Ogwr	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Mae'r arddangosfa ddwyieithog hon yn Neuadd y Tabernacl yn nodi 200 mlynedd ers marwolaeth Iolo Morganwg. Mae'n cynnwys arddangosfeydd diddorol, sgyrsiau hanes yn Gymraeg a stondin dros dro siop lyfrau Gymraeg Cant a Mil.
DYDD SADWRN 19 MEDI	**10am**	**Taith Gerdded Hanes Morgannwg – Cynffig a'r Sgêr**	Graham Loveluck-Edwards	Cynffig a'r Sgêr	Am ddim, rhaid archebu lle	Mae'r daith gerdded hon yn nodi 200 mlynedd ers marwolaeth Iolo Morganwg, un o feibion Morgannwg sydd wedi'i gamddeall fwyaf. Mae llwybr y daith hon yn un o'i ffefrynnau ac mae'n mynd â ni i leoliad dwy o'i straeon gorau.
DYDD SADWRN 19 MEDI	**11am-3pm**	**Diwrnod yr Ail Ryfel Byd**	Amgueddfa Porthcawl	Amgueddfa Porthcawl	Oedolyn £3 Plentyn (16 ac iau) £1 a Thocyn Teulu (2 oedolyn a 2-4 o blant) £7	Ymunwch â'r tîm yn Amgueddfa Porthcawl ar gyfer y diwrnod arbennig hwn ar yr Ail Ryfel Byd, gyda thywyswyr mewn gwisgoedd a gweithgareddau arbennig.
DYDD SADWRN 19 MEDI	**11am-4pm**	**Arddangosfa 'Placiau Glas Pen-y-bont ar Ogwr'**	Cymdeithas Hanes Lleol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cylch	Tŷ Carnegie, Pen-y-bont ar Ogwr	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Mae'r arddangosfa hon sydd wedi'i churadu'n arbennig yn taflu goleuni ar gymeriadau hanesyddol Pen-y-bont ar Ogwr, a sut y gwnaethant ennill y gydnabyddiaeth i gael plac glas wedi'i greu ar eu cyfer.
DYDD SADWRN 19 MEDI		**Pen-y-bont ar Ogwr Agored**	Treftadaeth Awen	Amrywiol leoliadau ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r ardal gyfagos	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Mae Pen-y-bont ar Ogwr ar agor ar gyfer treftadaeth dDydd Sadwrn 19 Medi: bydd llawer o safleoedd hanesyddol a mannau addoli yn agor eu drysau am ddim trwy gydol y dydd. Cyfle gwych i ymweld â sawl lleoliad hanesyddol yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr a'r ardaloedd cyfagos mewn un diwrnod. Gweler yr adran 'Pen-y-bont ar Ogwr Agored' am restr lawn o'r lleoliadau.
MONDAY 21 MEDI	**11am-3.30pm**	**Arddangosfa 'Dathlu Plentyndod' Ogwr Agored**	Phil Cope	Canolfan Bywyd Betws	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Darganfyddwch a dathlwch straeon lleol am blentyndod, a rhannwch rai o'ch atgofion eich hun hefyd! Mae hon yn arddangosfa hwyliog a rhyngweithiol o hanes lleol sy'n hygyrch i bawb a phob oedran.
DYDD MERCHER 23 MEDI	**11am**	**Iolo Morganwg: 'Y Ffugiwr Gonest?'**	Treftadaeth Awen	Llyfrgell y Pîl	Am ddim, rhaid archebu lle	Phil Cope yw golygydd 'The Honest Forger', a bydd yn sôn am y llyfr newydd hwn sy'n coffáu 200 mlynedd ers marwolaeth Iolo Morganwg, y dyn a luniodd lawer o hunaniaeth y Gymru fodern.
DYDD MERCHER 23 MEDI	**1pm**	**Sinema: 'Save the Cinema'**	Awen Heritage	Y Bocs Oren, Neuadd y Dref Maesteg	Am ddim, mae'n hanfodol archebu lle	Yn y ffilm hon, sydd wedi'i gosod yn y 1990au, mae maer Caerfyrddin wedi cytuno i ddymchwel theatr ieuenctid leol. Ond dydy'r trigolion, dan arweiniad y triniwr gwallt lleol Liz Evans (a chwaraeir gan Samantha Morton), ddim yn barod i weld hynny'n digwydd heb frwydr, gan geisio sicrhau cefnogaeth y cyfarwyddwr Hollywood Steven Spielberg hyd yn oed.

GWR AGORED: DYDD SADWRN 26 MEDI

Fel rhan o **Ŵyl Drysau Agored** Cadw, bydd partneriaid treftadaeth lleol yn agor eu safleoedd i'r cyhoedd:

- **Blwch Signalau Cefn Cribwr** (10am–5pm)
- **Amgueddfa Porthcawl – Diwrnod Elvis** (11am–3pm)
- **Diwrnod Agored Treftadaeth Cwm Ogwr** (9am–1pm)
- **Tŷ Sant Ioan, Pen-y-bont ar Ogwr** (11am–3pm)

TEITHIAU CERDDED HANES

Amrywiaeth o deithiau tywys sy'n archwilio treftadaeth leol *(rhaid archebu lle):*

- **Dydd Sadwrn 5 Medi, 2pm:** *Breuddwyd Haearn, Gwaith Haearn Cefn Cribwr*
- **Dydd Gwener 11 Medi, 10am:** *Cefn Cribwr (cysylltiad Iolo)*
- **Dydd Sadwrn 12 Medi, 9am:** *Llangynwyd i Fynydd Margam*
- **Dydd Sadwrn 19 Medi, 10am:** *Cynffig a'r Sgêr*
- **Dydd Mercher 30 Medi, 11am:** *Taith Gerdded Natur Parc Bryngarw*

DYDDIAD	AMSER	DIGWYDDIAD	ENW	LLEOLIAD	TOCYNNAU	MANYLION
DYDD IAU 24 MEDI	**1pm-7pm**	**Sesiwn galw heibio: Enwau Lleoedd Morgannwg**	James January -McCann	Yr ARC yn Abercynffig	Mynediad am ddim, does dim rhaid archebu lle	Rhannwch eich gwybodaeth leol yn y sesiynau arbennig hyn sy'n dogfennu enwau lleoedd a strydoedd lleol. Yn arbennig, rydym yn cofnodi enwau llafar ar gyfer strydoedd, lonydd, lleoedd neu hyd yn oed caeau. Gallwch chi ymuno â'r sesiwn unrhyw bryd, a dysgu mwy am y prosiect cenedlaethol hwn sy'n cael ei gynnal gan CBHC.
DYDD GWENER 25 MEDI	**11am**	**'Felly dyna sut oedd pobl yn ysgrifennu 2000 o flynyddoedd yn ôl!'**	Richard Cleaves	Llyfrgell Pencoed	Mynediad am ddim, rhaid archebu lle	Bydd Richard Cleaves yn cyflwyno llechi ysgrifennu Bloomberg, Vindolanda ac Uley. Mae'r llechi hyn yn agor ffenestr i fyd y Celtiaid a'r Rhufeiniaid ym Mhrydain 2000 o flynyddoedd yn ôl. Mae'r sgwrs hon yn gysylltiedig â llyfr Richard a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y pwnc diddorol hwn.
DYDD SADWRN 26 MEDI		**Ogwr Agored**		Lleoliadau amrywiol ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Mynediad am ddim, does dim rhaid archebu lle	Mae nifer o'n safleoedd hanesyddol ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn agor eu drysau am ddim ar gyfer y Diwrnod Treftadaeth 'Ogwr Agored' hwn. Mae'r diwrnodau agored hyn yn cael eu trefnu mewn partneriaeth â gŵyl 'Drysau Agored' Cadw.
DYDD SADWRN 26 MEDI	**10am to 5pm**	**Diwrnod Agored ym Blwch Signalau Cyffordd Cefn**	Y Cefn Gwyrdd	Blwch Signalau Cefn Cribwr	Mynediad am ddim, does dim rhaid archebu lle	Cyfle gwych i ymweld â'r Blwch Signalau hanesyddol unigryw hwn, dysgu mwy am yr adeilad a gweld rhai eitemau diddorol o gasgliadau hanes lleol y tu mewn.
DYDD SADWRN 26 MEDI	**11am-3pm**	**Diwrnod Elvis yn Amgueddfa Porthcawl**	Amgueddfa Porthcawl	Amgueddfa Porthcawl	Mynediad am ddim, does dim rhaid archebu lle	Fel rhan o benwythnos Elvis Porthcawl, ewch i Amgueddfa Porthcawl a darganfod pam mae 'Jailhouse Rock' yn drac sain priodol ar gyfer yr adeilad hanesyddol hwn...
DYDD SADWRN 26 MEDI	**9am-1pm**	**Diwrnod Agored Cadw Ogwr**	Cymdeithas Hanes Lleol Cwm Ogwr	Canolfan Bywyd Cwm Ogwr	Mynediad am ddim, does dim rhaid archebu lle	Ymunwch â Chymdeithas Hanes Lleol Cwm Ogwr am fore treftadaeth llawn hanes lleol yng Nghanolfan Bywyd Cwm Ogwr.
DYDD SADWRN 26 MEDI	**11am-3pm**	**Saethwyr yn Niwrnod Agored Tŷ Sant Ioan**	Ymddiriedolaeth Tŷ Sant Ioan	Tŷ Sant Ioan, Pen-y-bont ar Ogwr	Mynediad am ddim, does dim rhaid archebu lle	Mae Tŷ Sant Ioan yn adeilad rhestredig Gradd II* y credir mai ef yw'r tŷ hynaf y mae modd byw ynddo ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ar y Diwrnod Agored hwn, bydd saethwyr canoloesol y 'Bowmen of Gwent' yn ymweld gyda'u hoffer.
DYDD SUL 27 MEDI	**11am-3pm**	**Diwrnod Agored Sant Ioan**	Ymddiriedolaeth Tŷ Sant Ioan	Tŷ Sant Ioan, Pen-y-bont ar Ogwr	Am ddim, does dim rhaid archebu lle	Mae Tŷ Sant Ioan yn adeilad rhestredig Gradd II* y credir mai ef yw'r tŷ hynaf y mae modd byw ynddo ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae gan y tŷ, sy'n cael ei adnabod fel tŷ aelwyd, hanes diddorol, arddangosiadau gwych a gwirfoddolwyr hyfryd a all roi'r holl wybodaeth amdano.
DYDD MAWRTH 29 MEDI	**2pm**	**Ffrwydrad Parc Slip**	Mike Clubb	Llyfrgell Abercynffig	Mynediad am ddim, rhaid archebu lle	Yn y sgwrs Gymraeg hon, bydd Mike Clubb yn trafod y ffrwydrad tanddaearol trychinebus ar 26 Awst 1892 yng Nglofa Parc Slip yn Nhondu, ac yn ystyried yr effaith gymdeithasol ar y gymuned leol.

DYDDIAD	AMSER	DIGWYDDIAD	ENW	LLEOLIAD	TOCYNNAU	MANYLION
DYDD MAWRTH 29 MEDI	**6.45pm**	**'Iolo Morganwg: Bywyd ar ôl marwolaeth'**	Gareth Thomas	Llyfrgell Pencoed	Mynediad am ddim, rhaid archebu lle	I nodi 200 mlynedd ers marwolaeth Iolo Morganwg, mae Gareth Thomas wedi creu'r sgwrs arbennig hon sy'n archwilio'r ffordd y mae enw Iolo wedi codi, wedi gostwng ac wedi codi eto dros y 200 mlynedd diwethaf, a pham.
DYDD MERCHER 30 MEDI	**11am**	**Taith Gerdded Natur Parc Bryngarw**	Adam Davies	Parc Gwledig Bryngarw	Mynediad am ddim, rhaid archebu lle	Ymunwch ag Adam, Rheolwr y Parc Gwledig, am Daith Gerdded Natur o amgylch parc gwledig hardd a hanesyddol Bryngarw. Gwisgwch yn addas i'r tywydd a dewch â'ch esgidiau cerdded gan y bydd rhywfaint o'r daith yn mynd trwy goetir ac ar hyd llwybrau glaswellt.
DYDD MERCHER 30 MEDI	**1pm**	**Sinema: 'The Choral'**	Treftadaeth Awen	Y Bocs Oren, Neuadd y Dref Maesteg	Am ddim, mae'n hanfodol archebu lle	Yn y ffilm hon, sydd wedi'i lleoli yn Swydd Efrog ym 1916, mae cymdeithas gorawl leol heb lawer o aelodau yn recriwtio pobl ifanc yn eu harddegau i berfformio o dan eu côr-feistr heriol a ddrwgdybir, a chwaraeir gan Ralph Fiennes. Golwg ingol ar gymuned sy'n canfod harmoni yn ystod anhrefn rhyfel.

CYMERWCH RAN

Trefnir Mis Hanes Ogwr mewn partneriaeth â Rhwydwaith Treftadaeth Ogwr, cydweithfa o gymdeithasau hanes a safleoedd treftadaeth ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn hanes lleol ac os hoffech chi gefnogi eich cymdeithas hanes lleol, beth am gysylltu â nhw i ddarganfod sut y gallwch chi gymryd rhan?

Ac os hoffech chi gael help neu gymorth gyda'ch prosiect ymchwil hanes teulu eich hun, mae llawer o adnoddau (a thîm defnyddiol iawn) yn Llyfrgell Hanes Lleol Sir Pen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi'i lleoli yn Neuadd y Dref Maesteg. Gallwch chi gysylltu â nhw drwy e-bost ar history@awen-wales.com

MIS HANES OGWR – BYDDEM WRTH EIN BODDAU YN CLYWED EICH BARN!

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau rhaglen amrywiol Mis Hanes Ogwr eleni. A byddem wrth ein boddau yn clywed eich adborth, yn ogystal â'ch awgrymiadau fel y gallwn ddod â hyd yn oed mwy o hanes (lleol) i chi yn y dyfodol!

Bydd ffurflenni adborth ar gael yn y rhan fwyaf o'n digwyddiadau, gallwch siarad â'n staff a'n gwirfoddolwyr, neu gallwch anfon eich adborth a'ch awgrymiadau drwy e-bost i: history@awen-wales.com